Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Gwireddu Hawliau Dynol i Bobl Hŷn

Canllaw i Awdurdodau Cyhoeddus Yng Nghymru

Dr. Simon Hoffman
Tachwedd 2016

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd yn hybu hawliau dynol a dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, ac yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i dyfu'n hŷn ynddo, nid dim ond i rai, ond i bawb.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 029 2044 5030

E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Trydar: @comisiwnphcymru

Cynnwys

Cyflwyniad	**04**
Rhan 1: Ynghylch Hawliau Dynol	**05**
Rhan 2: Mecanweithiau Hawliau Dynol	**06**
Rhan 3: Dull o Weithredu Hawliau Pobl Hŷn	**10**
Rhan 4: Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru)	**13**
Atodiad 1: OPRA yn y byd go iawn	**18**

Byrfoddau

Mae'r byrfoddau canlynol wedi'u defnyddio yn y canllaw hwn:

CEHD	Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
DHD 1998	Deddf Hawliau Dynol 1998
DGCLI 2014	Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru) 2014
DWHPH	Dull o Weithredu Hawliau Pobl Hŷn
CU	Cenhedloedd Unedig

Cyflwyniad

Mae cam-drin a gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yn her i bob cymdeithas a sefydliad sy'n trysori urddas pobl. Yn rhy aml, mae pobl hŷn yn cael eu trin mewn ffyrdd sy'n torri eu hawliau dynol, fel yr hawl i fywyd, i gael parch at gorff a meddwl, i gael safon byw ddigonol, i gael eu trin yn gyfartal, neu i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae awdurdodau cyhoeddus mewn lle unigryw i wireddu hawliau dynol drwy'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Drwy fabwysiadu hawliau dynol yn rhan o'r fframwaith ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau, gallant wneud cyfraniad ystyrlon at wella bywydau pobl hŷn yng Nghymru.

Bydd y canllaw hwn yn helpu arweinwyr yn y sector cyhoeddus i wreiddio hawliau dynol pobl hŷn mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Defnyddio'r canllaw hwn

Er mwyn hwylustod, mae'r canllaw hwn wedi'i rannu'n 4 rhan gyda 1 atodiad.

Mae **Rhan 1** yn ymwneud â hawliau dynol. Mae'n egluro'r fframwaith hawliau dynol sy'n gymwys yn y DU ac yng Nghymru, ac yn disgrifio'r dyletswyddau hawliau dynol sy'n gymwys i bob awdurdod cyhoeddus.

Mae **Rhan 2** yn tynnu sylw at ddau fecanwaith hawliau dynol: Deddf Hawliau Dynol 1998 (DHD 1998) ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn[2] (Egwyddorion y CU). Mae DHD 1998 yn rheoli'r dull o gynnal yr holl awdurdodau cyhoeddus, ac mae Egwyddorion y CU yn bwysig iawn i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru o ganlyniad i basio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (DGCLl 2014).

Mae **Rhan 3** yn amlinellu Dull o Weithredu Hawliau Pobl Hŷn (DWHPH) sy'n ffordd o weithio i ddiogelu a hyrwyddo hawliau dynol pobl hŷn wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae **Rhan 4** yn dangos y cysylltiadau rhwng Dull o Weithredu Hawliau Pobl Hŷn a dyletswyddau o dan DGCLl 2014. Mae'n cynnwys briff technegol ar ystyr 'rhoi sylw dyladwy' i Egwyddorion y CU o dan adran 7 o DGCLl 2014, yn ogystal ag awgrymiadau ymarferol ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd sylw dyladwy.

Mae'r atodiadau'n cynnig enghreifftiau ymarferol ac astudiaethau achos.

2 http://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/OlderPersons.aspx

Rhan 1: Ynghylch Hawliau Dynol

Mae hawliau dynol yn warant gyffredinol o ryddidau a hawliau sylfaenol sy'n galluogi unigolion i fyw gydag urddas. Mae hawliau dynol yn cwrdd ag anghenion sylfaenol: nid moethau ydyn nhw.

Mae hawliau dynol sydd ar gael i bawb yn y DU wedi'u cofnodi mewn dogfennau hawliau dynol (cyfamodau, confensiynau neu gytuniadau) a gyhoeddwyd gan y Cenhedloedd Unedig (CU), yn ogystal â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (CEHD). Mae gan bobl hŷn yr un hawliau dynol ag sydd gan bob oedolyn. Nid yw'r ffaith bod rhywun yn hŷn yn rheswm dros wrthod ei hawliau dynol iddo.

Mae hawliau dynol yn arbennig o bwysig i unigolion o bob oed sy'n agored i niwed oherwydd analluogrwydd corfforol neu feddyliol, neu anfantais economaidd neu anfantais o fath arall (bod yn aelod o grŵp lleiafrifol mewn cymdeithas, er enghraifft).

Mae hawliau dynol yn diogelu pobl hŷn rhag cam-drin, camfanteisio, gwahaniaethu neu ymyleiddio, ac yn gwarantu gwasanaethau sy'n galluogi pobl hŷn i fod mor annibynnol â phosibl, i gadw eu hurddas fel unigolion, ac i fwynhau llesiant corfforol a meddyliol.

Mae awdurdodau cyhoeddus mewn lle da i hwyluso gallu pobl hŷn i gael hawliau dynol drwy wasanaethau cyhoeddus. Mae gwasanaethau cyhoeddus priodol a hygyrch yn hanfodol o ran gwireddu hawliau i bobl hŷn.

Dyletswyddau hawliau dynol

Mae llywodraeth y DU, llywodraethau datganoledig ac awdurdodau cyhoeddus yn rhannu cyfrifoldeb dros wireddu hawliau dynol pobl hŷn. Dylai awdurdodau cyhoeddus wneud y canlynol:

- **Parchu hawliau ...** drwy beidio â gwneud dim sy'n ymyrryd â'r mwynhad o hawliau dynol. Dylai awdurdodau cyhoeddus wneud popeth yn eu gallu i osgoi torri hawliau dynol.

Er enghraifft, ni ddylai awdurdodau cyhoeddus wrthod ei hawliau dynol i unigolyn am ei fod wedi cyrraedd oed penodol, neu am nad yw'n gallu gwrthsefyll neu brotestio pan gaiff ei hawliau eu torri.

- **Diogelu hawliau …** drwy sicrhau, hyd y gellir, na fydd eraill yn ymyrryd â hawliau dynol pobl hŷn neu'n eu hatal rhag eu cael. Bydd hyn yn arbennig o bwysig i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn y sector preifat.

Er enghraifft, dylai awdurdodau cyhoeddus gymryd camau lle mae tystiolaeth o gam-drin, camfanteisio neu wahaniaethu mewn perthynas â phobl hŷn mewn lleoliadau mewn cartrefi gofal preifat.

- **Hyrwyddo (neu gyflawni) hawliau …** drwy gymryd camau i hwyluso mwynhad neu well mwynhad o hawliau dynol.

Er enghraifft, dylai awdurdodau cyhoeddus gymryd camau i sicrhau bod pobl hŷn ac eraill yn ymwybodol o'u hawliau, a bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wasanaethau o ansawdd da, a hynny'n cynnwys camau i ddarparu adnoddau digonol.

Rhan 2: Mecanweithiau Hawliau Dynol

Yn y rhan hon rydym yn trafod dwy ffynhonnell bwysig sy'n darparu hawliau dynol i bobl hŷn yng Nghymru, DHD 1998 ac Egwyddorion y CU. Fodd bynnag, dylai awdurdodau cyhoeddus gofio bob amser fod y set gyfan o hawliau dynol sydd ar gael i bob oedolyn mewn cyfraith ryngwladol (mewn dogfennau a gyhoeddwyd gan y CU[2]) yn gymwys i bobl hŷn.

Human Rights Act 1998

Mae adran 6 o DHD 1998 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i beidio â gweithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â nifer o'r hawliau sydd yn y CEHD. Mae nifer bach o eithriadau ond, yn gyffredinol, mae dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus fel adrannau llywodraeth, Awdurdodau Lleol, yr heddlu ac ysbytai'r GIG i barchu hawliau pobl hŷn ym mhob ffordd fel y mae'r CEHD yn gwarantu.

Mae'r CEHD yn cynnwys nifer o hawliau sy'n berthnasol iawn i fywydau pobl hŷn:

- **Erthygl 2:** **'Rhaid diogelu hawl pob unigolyn i fywyd drwy gyfraith.'** Mae'r hawl hon yn bwysig iawn os yw bywyd rhywun yn cael ei beryglu drwy gamdrin neu esgeuluso.

- **Erthygl 3:** **'Nid yw neb i gael ei arteithio neu ei drin neu ei gosbi mewn ffordd greulon neu ddiraddiol.'** Mae camdriniaeth neu esgeuluster yn gallu arwain at amodau byw sy'n greulon neu ddiraddiol.

- **Erthygl 5:** **'Mae gan bawb hawl i ryddid a diogelwch fel unigolyn.'** Mae hyn yn golygu na ellir cadw pobl hŷn dan glo yn eu hystafell wely, mewn ward ysbyty neu mewn cartref gofal. Bydd hyn yn gamdriniol ac anghyfreithlon, hyd yn oed os yw'r person sy'n ei wneud yn credu ei bod er y 'budd pennaf' i'r person hŷn. Er y gellir cael amgylchiadau lle mae angen amddifadu rhywun o'i ryddid, rhaid i hynny fynd law yn llaw â mesurau diogelu priodol.

- **Erthygl 6:** **'Mae gan bawb hawl i gael gwrandawiad teg a chyhoeddus o**

2 Mae'r prif destunau hawliau dynol a noddwyd gan y CU ar gael drwy ddilyn dolenni o'r cyfeiriad hwn: http://www.ohchr.org/EN/HRBodies/Pages/HumanRightsBodies.aspx

fewn cyfnod rhesymol gan dribiwnlys annibynnol a diduedd a sefydlwyd drwy gyfraith.' Os bydd y canlyniad i benderfyniad, neu gam gweithredu, yn cael effaith arwyddocaol ar fywyd rhywun, rhaid cael y gallu i fynd â'r mater i dribiwnlys sy'n gallu penderfynu a yw'n unol â rheolau a gweithdrefnau perthnasol.

- **Erthygl 8: 'Mae gan bawb hawl i gael parch i'w fywyd preifat a theuluol, ei gartref a'i ohebiaeth.'** Mae hon yn hawl bellgyrhaeddol sy'n cynnwys: gallu gwneud penderfyniadau, gallu gwrthod triniaeth feddygol, a gallu cynnal cysylltiadau â'ch teulu.

- **Erthygl 9: 'Mae gan bawb yr hawl i ryddid mynegiant, cydwybod a chrefydd.'** Mae hyn yn cynnwys yr hawl i ddangos eich bod yn dilyn crefydd neu gymryd rhan ynddi.

Mae'r rhain yn warantau pwysig o urddas ac annibyniaeth pobl hŷn.

Hawliau absoliwt o dan y CEHD

Mae rhai hawliau sydd wedi'u gwarantu gan y CEHD yn hawliau 'absoliwt'. Ystyr hynny yw na ellir eu gwrthod nac ymyrryd â nhw o dan unrhyw amgylchiad. Mae'n bwysig nodi bod yr hawl yn erthygl 3 yn hawl absoliwt. Nid oes unrhyw amgylchiadau lle mae awdurdod cyhoeddus yn gallu trin pobl hŷn mewn ffordd greulon neu ddiraddiol. .

Hawliau amodol o dan y CEHD

Mae rhai hawliau o dan y CEHD yn hawliau 'amodol'. Ystyr hynny yw y gellir gosod terfyn arnynt mewn amgylchiadau cyfyng iawn. Er enghraifft:

- Erthygl 8 - yr hawl i gael parch i fywyd preifat a theuluol
- Erthygl 9 - rhyddid i ddangos eich bod yn dilyn crefydd neu gred (mae'r hawl i arddel cred yn absoliwt).
- Erthygl 10 - rhyddid mynegiant
- Erthygl 11 – rhyddid i ymgynnull.

Os bydd awdurdod cyhoeddus yn ystyried cymryd cam a all effeithio ar un neu ragor o hawliau amodol, dylai sicrhau bod y cwestiynau canlynol yn cael eu gofyn a'u hateb:

- A fydd y penderfyniad neu gam gweithredu arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar unrhyw hawl o dan y CEHD?
- A wyf yn gweithredu er mwyn cyflawni 'nod cyfreithlon'?
- A yw'r cam gweithredu arfaethedig yn gymesur?

Drwy ofyn y cwestiynau hyn, ac ystyried pob un ohonynt mewn ffordd ystyrlon, bydd yr awdurdod cyhoeddus yn gallu cydymffurfio â'i ddyletswydd o dan adran 6 o DHD 1998. Byddai methu â gwneud hyn yn gallu arwain at dorri dyletswydd a thorri hawliau dynol pobl hŷn.

Effaith niweidiol

Pan fydd awdurdod cyhoeddus yn ystyried cymryd cam sy'n debygol o gael effaith ar bobl hŷn, dylai asesu'r canlyniad(au) tebygol mewn ffordd briodol, ac ystyried a fydd hyn yn cael effaith niweidiol ar unrhyw hawl ddynol sydd wedi'i gwarantu i bobl hŷn o dan y CEHD. Dylid seilio'r asesiad hwn ar dystiolaeth berthnasol a fydd yn cynnwys tystiolaeth gan bobl hŷn neu eu cynrychiolwyr.

Os penderfynir y bydd cam gweithredu'n cael effaith niweidiol ar hawliau pobl hŷn, dim ond os gellir dangos bod y cam gweithredu'n cael ei gymryd er mwyn cyflawni nod cyfreithlon y gellir ei ganiatáu.

Nod cyfreithlon

Penderfynir a yw nod yn gyfreithlon drwy gyfeirio at yr erthyglau yn y CEHD sy'n berthnasol i'r cam gweithredu arfaethedig. Fel arfer bydd dwy ran i erthyglau sy'n amlinellu hawliau amodol: mae'r rhan gyntaf yn disgrifio'r hawl; mae'r ail ran yn disgrifio'r amgylchiadau lle gellir cyfyngu'r hawl, h.y. y nodau cyfreithlon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Diogelu hawliau pobl eraill
- Diogelwch gwladol
- Diogelwch cyhoeddus
- Atal troseddu
- Diogelu iechyd

Rhaid i awdurdod cyhoeddus gael ei fodloni ei fod yn gweithredu er mwyn cyflawni nod cyfreithlon cyn cymryd unrhyw gamau sy'n cyfyngu neu'n ymyrryd â hawliau dynol pobl hŷn.

Hyd yn oed os yw cam gweithredu'n ceisio cyflawni nod cyfreithlon, rhaid iddo fod yn gymesur.

Cymesuredd

Ystyr cymesuredd yw na ddylai awdurdod cyhoeddus wneud mwy na'r hyn sy'n hollol angenrheidiol i gyflawni ei nod cyfreithlon. Er mwyn penderfynu a yw cam

gweithredu'n gymesur, rhaid gofyn:

- Pa mor bwysig yw'r broblem dan sylw?
- A fydd y cam gweithredu'n lleddfu neu'n datrys y broblem?
- A ellir lleddfu neu ddatrys y broblem drwy gymryd cam gweithredu gwahanol sy'n ymyrryd yn llai â'r hawl dan sylw?
- Os gellir gwneud hynny, dylid dewis y cam gweithredu gwahanol.
- A fyddai'r cyfyngiad yn tanseilio'r hyn y mae'r hawl yn ei ddiogelu?
- Os byddai, yna bydd y cam gweithredu'n anghyfreithlon.

Ar gyfer astudiaeth achos sy'n dangos sut y gellir defnyddio hawliau dynol i wella'r broses gwneud penderfyniadau, ewch i Atodiad 1.

Egwyddorion y CU ar gyfer Pobl Hŷn

Mae 18 egwyddor sydd wedi'u rhannu o dan bum thema:

Annibyniaeth

Dylai pobl hŷn allu bod yn annibynnol. Dylid gwarantu incwm iddynt a'r hawl i gymryd rhan mewn cyflogaeth, dylent allu cael gafael ar y modd i fyw'n annibynnol, a gallu byw mewn amgylchedd diogel ac addas.

Cyfranogi

Dylai pobl hŷn allu cymryd rhan mewn cymdeithas ac mewn prosesau polisi sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu llesiant.

Gofal

Dylai pobl hŷn gael yr hawl i ofal i'w galluogi i gynnal neu adennill y lefel orau bosibl o lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol, i atal neu arafu cychwyniad salwch a'u gwneud yn fwy ymreolus. Dylai pobl hŷn fwynhau eu hawliau dynol pan fyddant yn byw mewn cartref gofal.

Hunangyflawniad

Dylai pobl hŷn allu manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu eu potensial yn llawn, gan gynnwys y gallu i gael gafael ar adnoddau addysgol, diwylliannol, ysbrydol ac adloniadol.

Urddas

Dylai pobl hŷn allu byw gydag urddas ac yn ddiogel a bod yn rhydd o gamfanteisio a cham-drin corfforol neu feddyliol. Dylent hefyd gael eu trin mewn ffordd nad yw'n

gwahaniaethu yn eu herbyn.

Mae Egwyddorion y CU yn gyson â hawliau dynol pobl hŷn sydd wedi'u disgrifio mewn cytuniadau rhyngwladol a'u gwarantu gan y CEHD. Bydd dilyn Egwyddorion y CU wrth gynllunio a darparu gwasanaethau yn gymorth i gydymffurfio â dyletswyddau hawliau dynol.

Mae DGCLl 2014 yn rhoi cyfrifoldeb i awdurdodau cyhoeddus dros nifer o wahanol swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phobl hŷn. Mae adran 7 o DGCLl 2014 yn gosod dyletswydd ar 'berson sy'n arfer swyddogaethau' o dan y ddeddfwriaeth mewn perthynas ag oedolyn i roi 'sylw dyladwy' i Egwyddorion y CU.

Rhan 3: Dull o Weithredu Hawliau Pobl Hŷn

Nid oes model sydd wedi'i dderbyn yn gyffredinol ar gyfer gweithredu hawliau dynol. Mae'r canllaw hwn yn amlinellu Dull o Weithredu Hawliau Pobl Hŷn (DWHPH). Mae wedi'i ddatblygu gan ystyried anghenion awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru.

Egwyddorion DWHPH yw:

- Gwreiddio hawliau dynol pobl hŷn
- Grymuso pobl hŷn
- Peidio â gwahaniaethu a Chydraddoldeb
- Cyfranogi
- Atebolrwydd

Mae'r egwyddorion hyn yn cael eu trafod isod. Dylid nodi mai pwrpas DWHPH yw darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer gwireddu hawliau dynol i bobl hŷn mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n anochel y bydd egwyddorion DWHPH yn gorgyffwrdd â'i gilydd. Dylai awdurdodau cyhoeddus gofio bob amser nad oes bwriad i'r egwyddorion gael eu cymhwyso mewn trefn benodol, nac yn unigol. Yn hytrach, dylid meddwl amdanynt a'u cymhwyso yr un pryd i arwain a chyfrannu i brosesau penderfynu a syniadau polisi, yn ogystal â chamau gweithredu a ffyrdd o ddarparu gwasanaethau.

Gwreiddio hawliau dynol pobl hŷn

Dylid rhoi lle canolog i hawliau dynol sydd ar gael i bobl hŷn mewn prosesau ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau. Mae angen integreiddio safonau hawliau dynol, sydd wedi'u hamlinellu yn y CEHD ac yn Egwyddorion y CU, ym mhob agwedd ar gynllunio a phenderfynu, yn ogystal â gweithdrefnau a chamau gweithredu. Mae angen cydnabod yn benodol fod hawliau dynol yn fframwaith ar gyfer penderfynu a gweithredu yn holl wasanaethau'r awdurdod cyhoeddus.

Yr enw a roddir yn aml ar yr egwyddor hon yw ‘prif ffrydio’. Pa un ai gwreiddio neu brif ffrydio yw’r enw arno, ei amcan yw ymdrin â phob agwedd ar wasanaethau cyhoeddus o safbwynt sy’n effro i hawliau dynol pobl hŷn. Dylid rhoi’r un flaenoriaeth i’r rhain ag i fuddiannau eraill y bydd yr awdurdod cyhoeddus yn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau neu gymryd camau gweithredu. Wrth ddatblygu polisi, gweithdrefnau, rhaglenni a chyllidebau, dylid gwneud hynny gan ystyried eu heffaith ar bobl hŷn a’r hawliau sydd ganddynt.

Mae’r egwyddor hon yn galw hefyd am hybu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau dynol a’u goblygiadau ymysg arweinwyr a phenderfynwyr, a hefyd ymysg staff sy’n ymwneud yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol â gwasanaethau i bobl hŷn.

Grymuso pobl hŷn

Mae’n bwysig bod hawliau dynol yn grymuso pobl hŷn. Rhaid deall bod hawliau dynol ar gael er lles pobl hŷn: nid ydynt yn ddewisol nac wedi’u seilio ar elusengarwch.

Mae grymuso’n golygu darparu adnoddau i sefydlu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn ac i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu defnyddio’r gwasanaethau hyn. Mae hyn yn golygu hybu ymwybyddiaeth o hawliau dynol ymysg pobl hŷn, a chwalu rhwystrau gan gynnig mwy o anogaeth i fanteisio ar hawliau drwy ddarparu adnoddau a chyfleoedd sy’n caniatáu i unigolion fod yn annibynnol, i fod yn iach ac i fyw gydag urddas.

Mae grymuso hefyd yn golygu cynorthwyo pobl hŷn i gymryd rhan mewn penderfyniadau, ac i ddylanwadu ar benderfynwyr a’u dal yn atebol. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo pobl hŷn drwy ddangos ble mae cyngor a chynrychiolaeth ar gael iddynt.

Peidio â gwahaniaethu a chydraddoldeb

Ni ddylid gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn fel unigolion neu fel grŵp. Mae peidio â gwahaniaethu’n golygu y dylai buddion, gwasanaethau a hawliau dynol fod ar gael i’r holl bobl hŷn beth bynnag fo’u hoed a beth bynnag fo’u hil, ethnigrwydd, rhyw, crefydd neu alluoedd. Ni ddylai neb wynebu gwahaniaethu sy’n ei roi dan anfantais oherwydd ei oed.

Mae cydraddoldeb yn ymwneud â sicrhau bod pobl hŷn yn cael cyfle cyfartal i fwynhau eu bywyd, eu mynegi eu hunain a gwireddu eu talentau. Mae hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu mynd i’r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn a sicrhau eu bod yn ymwybodol o’r cyfleoedd sydd ar gael iddynt ac yn gallu manteisio arnynt.

Cyfranogi

Dylai pobl hŷn chwarae rhan lawn a dylid ystyried eu barn o ddifrif wrth wneud

penderfyniadau neu gymryd camau sy'n effeithio ar eu bywydau'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Ni ddylai oed na galluedd meddyliol llai gael eu cymryd yn esgus dros ddiystyru barn rhywun, na rhoi llai o sylw i'r safbwynt hwnnw mewn prosesau penderfynu. Dylai fod yn glir a thryloyw sut y mae barn pobl hŷn yn cael ei hystyried mewn prosesau penderfynu.

Mae cyfranogi hefyd yn golygu y dylai pobl hŷn allu cymryd rhan wrth arfer eu hawliau. Ni ddylai pobl hŷn orfod dibynnu ar bobl eraill i arfer hawliau ar eu rhan, a dylid rhoi'r gallu iddynt gael gafael ar wybodaeth ac adnoddau i'w galluogi i arfer dewis ynghylch a fyddant yn dibynnu ar eu hawliau'n uniongyrchol.

Atebolrwydd

Mae hawliau dynol yn galw am atebolrwydd. Dylai awdurdodau cyhoeddus fod yn atebol i bobl hŷn am benderfyniadau a gweithredoedd sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn. Y cam cyntaf yw sicrhau tryloywder, drwy ddarparu gwybodaeth ac eglurhad i helpu pobl hŷn i ddeall penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys sefydlu gweithdrefnau ar gyfer cwyno, ar gyfer herio ac, os yw'n briodol, ar gyfer cael iawn.

Mae'n bwysig bod awdurdodau cyhoeddus, a'r holl staff sy'n gweithio i awdurdodau cyhoeddus, yn deall eu bod yn atebol i bobl hŷn am y penderfyniadau a gweithredoedd sy'n effeithio ar eu bywydau.

Pam mabwysiadu DWHPH?

Mae grym moesol mawr gan hawliau dynol. Maent yn cynnal gwerthoedd dynol, sef urddas, annibyniaeth, cydraddoldeb a diogelwch. Os torrir hawliau dynol pobl hŷn, mae hynny'n ymosodiad ar eu hurddas a'u hunaniaeth fel person. Am y rhesymau hyn yn unig, dylai awdurdodau cyhoeddus barchu, diogelu a hyrwyddo hawliau dynol pobl hŷn. Bydd DWHPH yn helpu awdurdodau cyhoeddus i gwrdd â'r disgwyliadau hyn.

Ond mae nifer o resymau egwyddorol ac ymarferol eraill dros fabwysiadu DWHPH ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau i bobl hŷn. Drwy fabwysiadu DWHPH:

- Bydd awdurdod cyhoeddus yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau hawliau dynol statudol o dan DHD 1998 a DGCLl 2014.
- Bydd ganddo fframwaith cynllunio cyson ar draws gwahanol feysydd darparu gwasanaeth i hyrwyddo cynllunio 'cydgysylltiedig' cydlynol.
- Bydd modd hybu ymwybyddiaeth ymysg staff o faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn. Drwy hybu ymwybyddiaeth o'r materion hyn, bydd pobl hŷn yn cael eu hamddiffyn yn well rhag niwed.
- Gall awdurdodau cyhoeddus osgoi gweithredu tuag at bobl hŷn mewn ffyrdd sy'n gwrthod annibyniaeth iddynt.
- Tynnir sylw at fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau sy'n effeithio ar bobl

hŷn, yn ogystal â sbarduno syniadau am ffyrdd o lenwi unrhyw fylchau.

- Bydd gan awdurdodau cyhoeddus ganllaw ar gyfer gwneud penderfyniadau anodd ynghylch dyrannu adnoddau, e.e. drwy dynnu sylw at effaith toriadau mewn gwasanaethau ar agweddau hanfodol ar fywydau pobl hŷn.
- Ceir sail resymegol i bolisi a gwasanaethau presennol, yn ogystal â sbardun i wella.

Ar gyfer astudiaeth achos sy'n dangos sut y gellir defnyddio YHPH (Ymagwedd Hawliau Pobl Hŷn) yn ymarferol er mwyn gwella penderfyniadau sy'n effeithio pobl hŷn, ewch i Atodiad 1.

Rhan 4: Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru)

Mae DGCLl 2014 yn rhoi'r cyfrifoldeb dros amrywiaeth o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phobl hŷn i awdurdodau cyhoeddus. Mae adran 7 yn gosod dyletswydd ar 'berson sy'n arfer swyddogaethau' o dan y ddeddfwriaeth i roi 'sylw dyladwy' i Egwyddorion y CU. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae swyddogaethau'n cael eu harfer mewn perthynas ag oedolyn sydd ag angen gofal a chymorth, neu ofalwr sy'n oedolyn sydd ag angen cymorth.

Mae canllaw a ddyroddwyd o dan DGCLl 2014 yn datgan bod rhoi 'sylw dyladwy' i Egwyddorion y CU o dan adran 7 yn gyfystyr â 'rhoi sylw' i faterion penodedig. Mae'r canllaw hwn yn anfoddhaol. Drwy ychwanegu'r gair 'dyladwy', rhoddwyd pwyslais ar ansawdd yr ystyriaeth sydd i'w rhoi gan y person dan sylw[3].

DWHPH a sylw dyladwy

Drwy fabwysiadu DWHPH bydd awdurdodau cyhoeddus yn cael cymorth i gyflawni eu dyletswydd i roi sylw dyladwy oherwydd:

- Bydd y cyfeiriad penodol at Egwyddorion y CU yn un agwedd ar wreiddio hawliau (egwyddor DWHPH), a bydd yn dwyn y rhain i sylw unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan DGCLl 2014.
- Mae egwyddorion DWHPH yn gyson â'r themâu sy'n sail i Egwyddorion y CU: mae'r ddau wedi'u cysylltu'n benodol ag amcanion hawliau dynol. Drwy weithredu hawliau dynol pobl hŷn ar sail yr egwyddorion hyn, gellir gwneud cynnydd ar bob un o'r pum thema.
- Bydd strwythurau a phrosesau i roi DWHPH ar waith yn helpu i sicrhau bod sylw dyladwy yn cael ei roi i Egwyddorion y CU, er enghraifft, drwy hybu

3 R (MS) v Oldham Metropolitan Council [2010] EWHC(Admin) 802

ymwybyddiaeth o Egwyddorion y CU a'u canlyniadau drwy hyfforddi a rhannu gwybodaeth; drwy strwythurau sy'n galluogi pobl hŷn i gymryd rhan mewn penderfyniadau; neu drwy rymuso pobl hŷn a chefnogi eu hannibyniaeth.

Er y bydd DWHPH yn helpu awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyladwy o dan DGCLl 2014, nid yw 'rhoi sylw dyladwy' i'w gymryd yn batrwm ar gyfer cymhwyso dull o weithredu hawliau dynol at yr holl wasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan awdurdodau cyhoeddus. Dim ond yn achos gwasanaethau gofal a chymorth a ddarperir gan bersonau sy'n arfer swyddogaethau penodol o dan DGCLl 2014 y mae rhoi sylw dyladwy i Egwyddorion y CU yn orfodol. Mae hawliau dynol pobl hŷn yn berthnasol i'r holl wasanaethau cyhoeddus sy'n berthnasol i bobl hŷn. Dylai awdurdodau cyhoeddus roi DWHPH ar waith wrth gynllunio a darparu yn eu holl swyddogaethau, nid yn unig y rheini sy'n ymwneud â gofal a chymorth o dan DGCLl 2014.

Rhoi sylw dyladwy i Egwyddorion y CU: Briff technegol

Mae'r term 'sylw dyladwy' yn deillio o ddeddfwriaeth ar wahaniaethu a chydraddoldeb. Mae achosion ar statudau cydraddoldeb yn rhoi arweiniad ar ystyr 'sylw dyladwy', sy'n uniongyrchol berthnasol wrth ddehongli adran 7 o DGCLl 2014.

Y prif awdurdod yw achos Brown v Secretary of State[4] lle'r oedd y llysoedd wedi gosod y prawf ar gyfer penderfynu a yw gofyniad i roi sylw dyladwy wedi'i fodloni. Mae achosion a gafwyd wedyn wedi cadarnhau'r ffordd hon o weithredu.

Mae'r cydrannau mewn sylw dyladwy sy'n deillio o achosion ar gydraddoldeb wedi'u disgrifio isod. Yn yr adran olaf, rydym yn awgrymu camau ymarferol i'w cymryd i gyflawni'r ddyletswydd sylw dyladwy.

Ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd i roi sylw dyladwy i Egwyddorion y CU

Rhaid i'r person y mae'n ofynnol iddo roi sylw dyladwy fod yn ymwybodol o holl Egwyddorion y CU. Ni fydd yn ddigon iddo roi sylw dyladwy i'r 5 thema gyffredinol, neu i grynodeb neu fersiwn anghyflawn.

Rhaid deall Egwyddorion y CU yn iawn

Dylai'r person y mae'n ofynnol iddo roi sylw dyladwy fod â gwybodaeth dda a dealltwriaeth briodol o oblygiadau Egwyddorion y CU, gan gynnwys y ffordd y maent yn gymwys yng nghyd-destun y penderfyniad neu gam gweithredu sy'n cael ei ystyried.

4 R (Brown) v Secretary of State for Work and Pensions [2008] EWHC 3158.

Mae sylw dyladwy yn gymwys cyn ac ar adeg y penderfyniad neu gam gweithredu

Rhaid rhoi sylw dyladwy i Egwyddorion y CU cyn ac ar adeg arfer swyddogaethau. Ni ellir rhoi sylw dyladwy ar ôl gwneud penderfyniad neu gymryd cam gweithredu, hyd yn oed os na fyddai'r penderfyniad neu gam gweithredu yn newid o ganlyniad. Nid yw brys yn dileu'r gofyniad am roi sylw dyladwy.

Rhaid rhoi sylw dyladwy yn rhan annatod o'r broses, gan wneud hynny'n fanwl ac yn feddwl-agored

Mae hon yn gydran bwysig mewn sylw dyladwy. Mae'n galw am wneud y ddyletswydd sylw dyladwy yn rhan annatod o'r broses penderfynu a gweithredu. Nid yw'n fater o 'dicio blychau'. Rhaid i'r person sy'n arfer swyddogaethau perthnasol roi sylw manwl i'r gofynion am sylw dyladwy sydd wedi'u rhestru uchod, a sicrhau bod pob un o'r rhain yn cael ei gyflawni'n briodol (h.y. yn fanwl)[5]. Dylai fod yn barod i ystyried gwahanol opsiynau, ac ni ddylai ddilyn cwrs penodol o weithredu sydd wedi'i benderfynu ymlaen llaw heb ystyried beth fydd effaith hynny ar bobl hŷn (h.y. yn feddwl-agored).

Mae arfer da yn golygu cadw cofnodion

Mesur diogelwch gweithdrefnol yw hwn. Mae'n arfer da cadw cofnod digonol sy'n dangos bod y person sy'n arfer swyddogaethau wedi ystyried ei ddyletswydd sylw dyladwy ac Egwyddorion y CU. Mae dull priodol o gadw cofnodion yn hybu tryloywder a bydd yn cymell y rheini sy'n cyflawni'r ddyletswydd i wneud hynny'n gydwybodol. Os na chedwir cofnodion, gall fod yn fwy anodd i'r awdurdod cyhoeddus argyhoeddi eraill, ar sail tystiolaeth, ei fod wedi cyflawni'r ddyletswydd yn adran 7.

Mae'r ddyletswydd yn parhau

Nid yw'r ddyletswydd sylw dyladwy yn dod i ben ar ôl arfer swyddogaethau. Bydd angen cadw golwg ar y canlyniadau er mwyn sicrhau bod unrhyw ragolwg o effaith y penderfyniad neu weithred ar hawliau dynol pobl hŷn yn gywir. Os bydd y rhagolwg o'r effaith yn wahanol i'r canlyniadau, dylid ystyried a oes angen cymryd camau pellach er mwyn unioni'r sefyllfa gan roi sylw dyladwy i Egwyddorion y CU.

Camau ymarferol at sylw dyladwy

Gall awdurdodau cyhoeddus helpu staff i gydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyladwy drwy'r camau canlynol:

- Paratoi canllawiau ar gydymffurfio a'r camau i'w cymryd mewn unrhyw

5 (Nid yw rhoi sylw dyladwy yn fater o ddefnyddio 'formulaic machinery': gweler, R(Kaur and Shah) v London Borough of Ealing [2008] EWHC 2062 (Admin)).

benderfyniad neu gam gweithredu sy'n galw am gyflawni'r ddyletswydd sylw dyladwy.

- Sefydlu gweithdrefnau sy'n tynnu sylw unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan DGCLl 2014 at adran 7, ac at Egwyddorion y CU.
- Gwneud Egwyddorion y CU yn weladwy ac yn hygyrch yn y gweithle, er enghraifft ar bosteri neu drwy ddarparu dolenni i staff fel y gallant weld yr egwyddorion ar-lein.
- Darparu hyfforddiant ar Egwyddorion y CU fel y bo'n briodol i staff sydd â gwahanol gyfrifoldebau, gan eu cynnwys fel elfen mewn datblygiad proffesiynol parhaus.
- Galluogi staff i weld gwybodaeth am Egwyddorion y CU a hawliau dynol pobl hŷn, drwy drefnu i gyhoeddiadau'r Comisiynydd Pobl Hŷn fod ar gael yn y gweithle neu ar-lein, er enghraifft.
- Datblygu arbenigedd mewnol ar hawliau dynol pobl hŷn, gan gynnwys penodi Eiriolwyr Hawliau Pobl Hŷn.
- Sicrhau bod staff yn ymwybodol o ffynonellau arbenigedd mewnol ar Egwyddorion y CU a hawliau dynol pobl hŷn, a sut i gael gafael ar yr arbenigedd hwn.
- Datblygu gweithdrefnau i sicrhau bod sylw dyladwy yn cael ei roi i Egwyddorion y CU cyn gwneud penderfyniad neu gymryd cam gweithredu, gan gynnwys Asesu Effeithiau yn rhagweithiol, ymlaen llawn i rag-weld effaith y penderfyniad neu weithred ar hawliau dynol pobl hŷn.
- Casglu data wedi'u dadgyfuno ar faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn a threfnu iddynt fod ar gael i staff sy'n cyflawni'r ddyletswydd sylw dyladwy.
- Gofyn am farn pobl hŷn am benderfyniadau a gweithredoedd sy'n effeithio arnynt a sicrhau bod y farn hon yn cael sylw ystyrlon.
- Ei gwneud yn ofynnol i staff sy'n arfer swyddogaethau o dan DGCLl 2014 gadw cofnodion priodol o'r ffordd y mae sylw dyladwy wedi'i roi i Egwyddorion y CU (mae asesu effeithiau yn rhagweithiol ymlaen llaw yn fecanwaith posibl ar gyfer cadw cofnodion addas).
- Sefydlu mecanweithiau monitro i daflu goleuni ar y canlyniadau i benderfyniadau a gweithredoedd sy'n effeithio ar bobl hŷn.
- Cyflawni adolygiad priodol o benderfyniadau a gweithredoedd sy'n effeithio ar bobl hŷn ar sail data sydd wedi'u casglu drwy fonitro canlyniadau.

Ar gyfer astudiaeth achos sy'n dangos sut y gellir ymgorffori ystyriaeth briodol i fewn i ddarpariaeth cynllunio a gwasanaethau, ewch i Atodiad 1.

DWHPH: llesiant a dyletswyddau hollgyffredinol o dan DGCLl 2014

Mae DGCLI 2014 yn gosod nifer o ddyletswyddau ar bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth mewn perthynas ag oedolion sydd ag angen gofal a chymorth, neu oedolion sy'n ofalwyr. O dan adran 5 y ddyletswydd yw hyrwyddo llesiant. Mae llesiant o dan DGCLI 2014 yn cynnwys 'sicrhau hawliau' (gweler adran 2 o DGCLI 2014). Mae DWHPH yn rhoi blaenoriaeth i weithredu hawliau dynol pobl hŷn ac felly bydd yn gyfraniad pwysig at gyflawni'r ddyletswydd 'llesiant'.

O dan adran 6 o DGCLI 2014 mae'n ofynnol bod y person sy'n arfer swyddogaethau yn cydymffurfio â nifer o ddyletswyddau. Yn fyr, y rhain yw:

- Hyrwyddo urddas yr unigolyn.
- Hyrwyddo annibyniaeth.
- Parchu nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn.
- Helpu unigolion i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a rhoi sylw i'w barn, eu dymuniadau a'u teimladau.

Mae'r dyletswyddau hyn yn gyson â hawliau dynol pobl hŷn. Mae'r ddwy gyntaf sydd wedi'u rhestru uchod yn amcanion hawliau dynol sy'n cael eu gweithredu drwy DWHPH. Mae gweddill y dyletswyddau'n egwyddorion sydd wedi'u datgan yn DWHPH (peidio â gwahaniaethu a chyfranogi). Felly drwy fabwysiadu DWHPH bydd yr awdurdod cyhoeddus yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau hollgyffredinol o dan DGCLI 2014.\

Atodiad 1: OPRA yn y byd go iawn

Mae'r adran hon yn dangos sut y gall OPRA ddylanwadu ar benderfyniadau a gweithredoedd i amddiffyn pobl hŷn yn well ac i wireddu eu hawliau dynol.

Mae tair astudiaeth achos:

- Mae stori Alice yn dangos sut y gall gweithredu OPRA amlygu ystyriaethau sy'n ymwneud â hawliau pan fydd penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl hŷn yn cael eu gwneud.
- Mae stori William yn dangos sut y gall OPRA helpu awdurdodau perthnasol i gydymffurfio â'u dyletswydd i roi sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Mae stori Emily yn dangos sut y gall OPRA roi fframwaith i ddylanwadu ar weithredoedd a phenderfyniadau a wneir gan sefydliadau nad oes gofyniad arnynt i gydymffurfio â dyletswyddau hawliau dynol.

Mae'r tair astudiaeth achos yn seiliedig ar achosion gwirioneddol y mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi delio â hwy. Mae'r enwau a rhai o'r manylion wedi cael eu newid i barchu cyfrinachedd.

O ran eu gweithredu, gall rhai egwyddorion OPRA fod yn fwy perthnasol na'i gilydd. Gwelir hyn yn stori William isod. Fodd bynnag, mae'n bwysig meddwl bob amser ym mha ffyrdd y gall bob un o egwyddorion OPRA fod yn berthnasol.

Stori Alice

Mae Alice yn byw mewn tai lloches sy'n cael eu rheoli gan ei Chyngor. Roedd ei mab yn anhapus ar ôl i'r Cyngor, heb siarad ag Alice, gloi giât fynediad yng nghefn ei chartref oherwydd problemau â fandaliaeth. Mae Alice yn 65 oed ac yn dibynnu ar sgwter symudedd i fynd o gwmpas. Mae'r grisiau o flaen ei chartref yn ei gwneud yn amhosibl iddi fynd i mewn ac allan o'i chartref ar ei sgwter trwy'r drws ffrynt. Nid yw Alice bellach yn gallu mynd i siopa, i ymweld â ffrindiau, na chadw apwyntiadau â'i Meddyg Teulu. Mae gweithred y Cyngor yn golygu bod yn rhaid i Alice ddibynnu ar eraill bob tro mae'n dymuno gadael ei chartref.

Dadansoddiad o hawliau

Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig yn pwysleisio pwysigrwydd annibyniaeth pobl hŷn, a gwerth gallu manteisio ar adnoddau, gan gynnwys adnoddau iechyd a hamdden. Mae gweithred y Cyngor yn golygu bod Alice wedi colli ei hannibyniaeth, ei mynediad at wasanaethau cymunedol, a'i chysylltiadau â'i chymunedau cyfeillgarwch. Mae hyn i gyd yn mynd yn groes i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig.

Nid yw'r Cyngor ychwaith wedi parchu hawl Alice i gael bywyd preifat a theuluol o dan Erthygl 8 o Siartr Hawliau Dynol Ewrop (ECHR) am nad yw mor alluog i ymweld â theulu neu ffrindiau. Gan fod Alice yn gaeth i'w chartref i bob pwrpas, mae hyn yn gyfyngiad ar ei rhyddid, sy'n mynd yn groes i Erthyl 5 o'r ECHR. Nid yw'r Cyngor felly wedi cydymffurfio â'r ECHR fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Gweithredu OPRA cyn gwneud penderfyniad

Mae gweithredu OPRA isod yn dangos sut y gall ganfod ac osgoi gweithredoedd sy'n debygol o gael effaith andwyol ar hawliau dynol pobl hŷn.

- **Sefydlu hawliau:** Mae'r egwyddor hon yn datgan fod yn rhaid i bob penderfyniad a gweithred gael eu gweld yng nghyd-destun Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig a hawliau dynol. Byddai ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig a'r ECHR cyn gweithredu wedi helpu'r Cyngor i weld eu bod yn gweithredu yn erbyn hawliau Alice. Mae sefydlu hawliau mewn prosesau penderfynu'n golygu edrych yn fwy manwl ar effaith y penderfyniad i gloi'r giât, a thrwy hynny gyfyngu ar allu Alice i fynd allan.
- **Grymuso pobl hŷn:** Un agwedd ar rymuso yw peidio â chymryd yr hawl i fynediad oddi ar bobl, mae hynny'n dadrymuso. Wrth edrych yn fanylach, a gweithredu'r egwyddor hon, byddai'r Cyngor wedi sylweddoli y byddai cloi'r giât gefn yn golygu y byddai Alice yn colli ei hawl i gymdeithasu a defnyddio gwasanaethau. Mae hyn yn mynd yn groes i egwyddor grymuso a byddai wedi golygu y byddai'n rhaid i'r Cyngor ailfeddwl a chymryd ymagwedd wahanol.
- **Anwahaniaethu a chydraddoldeb:** Oherwydd oedran Alice, mae'n ddibynnol ar sgwter symudedd. Yn wahanol i rywun iau ni all ddefnyddio drws ffrynt ei chartref. Mae cloi'r giât yn achos o wahaniaethu anuniongyrchol gan fod yr effaith ar Alice yn anghymesur. Trwy fod yn ymwybodol o'r effaith wahaniaethol hon, byddai'r Cyngor wedi gorfod dod o hyd i ateb arall i broblem y fandaliaeth.
- **Cyfranogaeth:** Roedd y Cyngor wedi gweithredu heb wybod am effeithiau andwyol ei weithredoedd ar Alice. Pe bai Alice wedi cael ei hysbysu o fwriad y Cyngor i gloi'r giât gefn, ac wedi ei holi ar y mater, byddai'r Cyngor wedi sylweddol beth fyddai canlyniadau ei weithredoedd i Alice.
- **Atebolrwydd:** Byddai system atebolrwydd effeithiol, fel trefn gwyno, wedi dod â phryderon Alice i sylw'r Cyngor. Byddai hyn wedi rhoi cyfle i'r Cyngor i gymryd camau cywiro, a byddai hefyd wedi lleihau'r posibilrwydd y byddai Alice wedi gorfod cymryd camau cyfreithiol i gael iawn.

Sylwadau

Nid oes amheuaeth nad oedd y Cyngor yn gweithredu gyda'r bwriadau gorau trwy gloi'r giât i amddiffyn rhag fandaliaeth. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod Alice yn garcharor yn ei chartref ei hun. Pe bai'r Cyngor wedi mabwysiadu OPRA, byddai wedi deall beth yn union fyddai effaith cloi'r giât cyn gweithredu mewn unrhyw ffordd. Mae'n debygol iawn y byddai cael eu hysbysu o'r risg (gan Alice) i'w hawliau dynol wedi bod yn ddigon i wneud y Cyngor feddwl am opsiwn arall, llai cyfyngol (e.e. addasu'r grisiau ffrynt, mynediad diogel i'r cefn, CCTV, neu'r Heddlu neu Swyddogion Cymorth Cymunedol yn monitro'r sefyllfa). Byddai gweithredu OPRA hefyd wedi golygu na fyddai'r Cyngor wedi torri Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig na Deddf Hawliau Dynol 1998.

Stori William

Mae William yn 76 oed ac yn siaradwr Cymraeg; mae'n gallu cyfathrebu'n llawer gwell yn Gymraeg. Cafodd William ei leoli mewn cartref gofal gan y gwasanaethau cymdeithasol lleol ar ôl iddi ddod yn amlwg na allai edrych ar ôl ei hun yn ei fflat tai cymdeithasol. Cyn iddo gael ei leoli, roedd yn aelod ffyddlon o'r Capel Bedyddwyr Cymraeg lleol, lle'r oedd yn mynd i addoli ac i gymdeithasu â'i ffrindiau. Roedd hefyd yn helpu yn y gegin gawl ar gyfer y digartref a oedd yn cael ei threfnu gan y capel. Cyn iddo gael ei ryddhau o'r ysbyty, gofynnodd ei fab, sy'n byw fwy na 150 milltir i ffwrdd, a fyddai modd cael gweithiwr cymdeithasol Cymraeg ei iaith i reoli ei achos. Mae William yn awr wedi dweud wrth ei dad ei fod yn anhapus am ei fod yn teimlo'n bryderus am na allai siarad â'r staff yn Gymraeg. Mae William wedi rhoi'r gorau i fynd i'r capel am nad oes trafnidiaeth gyhoeddus addas ar y Sul. Nid oes capeli Cymraeg eraill yn y cylch. Mae sawl cais am weithiwr cymdeithasol sy'n medru Cymraeg wedi cael eu hanwybyddu. Erbyn hyn mae William yn gwrthod siarad â neb heblaw ei fab.

Dadansoddiad o hawliau

Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig yn pwysleisio pwysigrwydd llesiant personol. Mae'r Gymraeg yn bwysig i William. Mae'n ffactor allweddol i'w lesiant a'i allu i gymryd rhan mewn bywyd cymdeithasol a diwylliannol, sy'n cynnwys y capel. Mae Egwyddorion y Cenhedloedd yn hyrwyddo cyfranogiad mewn cymdeithas ac yn cydnabod gwerth gwasanaeth i'r gymuned a mynediad at weithgareddau diwylliannol i hybu hunan gyflawniad. Mae sefyllfa William yn golygu na all fynegi ei ddiwylliant fel siaradwr Cymraeg; mae wedi colli cysylltiad â'i ffrindiau, ac ni all bellach wasanaethu'r gymuned trwy gymryd rhan yn y gegin gawl. Mae hyn yn amlwg yn cael effaith andwyol arno'n emosiynol. Mae hyn i gyd yn mynd yn groes i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig, ac yn arwydd o fethiant i roi sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae hawl William i gael bywyd preifat a theuluol o dan Erthygl 8 o'r ECHR, mae rhan o hynny'n cynnwys gallu cwrdd â ffrindiau a chymdeithasu, sy'n cael ei wrthod iddo. Hefyd, am na all William fynd i'r capel, mae ei hawl i arfer ei grefydd yn cael ei wrthod iddo, ac mae hynny'n cael ei warantu o dan Erthygl 9 o'r ECHR. Felly, mae'r awdurdod yn torri Deddf Hawliau Dynol 1998.

Yn olaf, mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig yn gwarantu y dylai bod gan bawb hawl i'w hawliau dynol, gan gynnwys yr hawliau sydd ar gael mewn cyfraith ryngwladol. Mae Erthygl 27 o'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol yn rhoi'r hawl i William i fynegi ei hun yn yr iaith o'i ddewis. Mae hyn yn cael ei wrthod iddo am nad yw'n gallu cyfathrebu'n Gymraeg â staff y cartref gofal na'i weithiwr cymdeithasol.

Gweithredu OPRA i ategu 'sylw dyladwy'

Mae pob un o egwyddorion OPRA yn berthnasol, ond dim ond dwy a gaiff sylw manwl isod, gan ganolbwyntio'n bennaf ar eu perthnasoedd i'r ddyletswydd sylw dyladwy o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

- **Sefydlu hawliau:** Agwedd ar y ddyletswydd sylw dyladwy yw bod yn rhaid i'r penderfynwr perthnasol ddeall yn union beth yw goblygiadau Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig, a bod y rhain yn cael blaenoriaeth mewn unrhyw broses benderfynu. Yn yr achos hwn, mae gwybodaeth am Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig a drafodwyd uchod yn golygu rhoi sylw i'r agweddau ar fywyd William sy'n bwysig iddo ef: yn benodol, yr iaith o'i ddewis a'i gysylltiad â'r capel a'r gymuned. Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig hefyd yn rhoi sylw i hawliau dynol pobl hŷn. Yn yr achos hwn byddai hyn wedi sicrhau cydnabyddiaeth briodol i hawliau William o dan yr ECHR a'r cyfamod rhyngwladol.
- **Cyfranogiad:** Mae sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig yn golygu talu sylw priodol i farn y sawl sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau a gweithredoedd. Yn yr achos hwn, ni wrandawyd ar William. Mewn gwirionedd, mae methiant yr awdurdod i sylweddoli pwysigrwydd dewis iaith William wedi golygu nad yw'n awr yn cyfathrebu â gweithwyr proffesiynol heblaw trwy gyfryngwr. Mae hyn yn fethiant amlwg ar ran yr awdurdod i roi sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig, am nad yw'r penderfyniadau a'r gweithredoedd wedi eu seilio arnynt.

Perthnasedd egwyddorion eraill OPRA:

- **Grymuso pobl hŷn:** Gwrthodwyd i William ei hawliau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, yn groes i egwyddor grymuso.
- **Anwahaniaethu a chydraddoldeb:** Gwrthodwyd i William ei hawliau diwylliannol, ieithyddol a chyfranogol. Mae ganddo lai o gyfle i weithredu'r

hawliau hyn o'i gymharu â phreswylydd Saesneg ei iaith yn y cartref.

- **Atebolrwydd:** Mae'n ymddangos bod pryderon William, a fynegwyd trwy ei fab, yn cael eu hanwybyddu. Yn benodol, ei gais am weithiwr cymdeithasol Cymraeg ei iaith.

Mae gweithredu'r tair egwyddor uchod yn helpu i ganfod gwendidau yn y broses benderfynu.

Sylwadau

Ymddengys mai'r flaenoriaeth fwyaf i'r awdurdod oedd sicrhau lle i William. Mae hyn yn ddealladwy, ond nid yw'n rheswm dros ddiystyru ffactorau pwysig eraill sy'n effeithio ar lesiant William. Mae OPRA yn amlygu'r rhain trwy dynnu sylw mewn ffordd systematig at faterion sydd angen eu hystyried, ynghyd â bylchau yn y broses benderfynu. Trwy hyn, mae OPRA yn helpu awdurdodau i roi sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig. Wrth gwrs, gallai gweithredu OPRA olygu y byddai angen i awdurdodau adolygu ac edrych eto ar eu penderfyniadau a'u gweithredoedd. Yn achos William mae'n ymddangos ei fod yn mynnu y dylai'r awdurdod sicrhau gweithiwr cymdeithasol Cymraeg ei iaith ar ei gyfer. Mae'n awgrymu'n gryf hefyd y dylai'r awdurdod ymdrechu o ddifrif i ddod o hyd i gartref arall, un sy'n rhoi cyfle i William i ailafael yn ei gysylltiadau â'i gapel.

Stori Emily

Mae Emily yn 95 oed ac yn byw mewn cartref gofal preifat o dan drefniant lle mae ei merch yn talu. Enwyd y cartref gan yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol fel cartref addas, a threfnodd yr awdurdod i Emily symud i mewn. Mae Emily yn wan iawn yn gorfforol, ac mae ganddi ddementia datblygedig. Mae ganddi ymatebion cynhyrfus sy'n achosi ymddygiad geiriol a chorfforol ymosodol ac mae'n gwrthod gadael i neb roi bath iddi. O ganlyniad, mae hylendid personol Emily yn wael iawn ac mae'n achosi heintiau ar ei chroen. Mae'r cartref gofal wedi ymgynghori â theulu Emily ynglŷn â hyn ac mae aelodau'r teulu wedi cynnig ymweld â'r cartref gofal i helpu i roi bath i Emily ac i ofalu am ei hylendid personol. Yn anffodus, oherwydd gofynion gwaith, dim ond ychydig oriau o rybudd y gall aelodau'r teulu ei roi. Mae'r cartref gofal wedi mynnu bod angen iddo gynllunio ei drefniadau gofal yn ofalus i ddiwallu anghenion preswylwyr eraill. Yn ystod un ymweliad diweddar gwelodd nith Emily ei bod yn crio ac yn gorwedd ar fatres a oedd wedi baeddu; roedd Emily wedi gwlychu ei hun am nad oedd neb wedi dod i fynd â hi i'r toiled. Dywed preswylydd arall wrth nith Emily mai hwn oedd y trydydd tro iddi weld Emily yn y cyflwr hwnnw. Mae teulu Emily wedi cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol i ofyn am gyngor.

Dadansoddiad o hawliau

Nid oes dyletswydd ar y cartref gofal i roi sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig, ond mae'n ddarostyngedig i Ddeddf Hawliau Dynol 1998

o dan Siartr Hawliau Dynol Ewrop (ECHR) (gan ei fod yn darparu gofal). Fodd bynnag, bydd cyfeirio at Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig yn ogystal â'r ECHR yn helpu i amlygu diffygion yng ngofal Emily. Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig yn hyrwyddo urddas pobl hŷn, gan gynnwys eu gwarchod rhag camdriniaeth feddyliol a neu gorfforol. Mae diffyg sylw'r cartref gofal i ofynion toiled Emily yn tramgwyddo yn erbyn ei hurddas, ac mae Emily yn amlwg yn drallodus, sy'n fath o gamdriniaeth feddyliol. Mae hyn yn mynd yn groes i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig yn ogystal ag Erthygl 2 o'r ECHR, sy'n gwahardd triniaeth ddiraddiol. Mae methiant y cartref i ddarparu neu dderbyn ateb i'r broblem o sut i roi bath i Emily yn fethiant mewn gofal sefydliadol, ac yn mynd yn groes i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar urddas a llesiant. Mae'n bosibl hefyd bod Erthygl 8 o'r ECHR wedi'i dorri, gan ei fod yn mynnu parch i fywyd preifat a theuluol, gan fod y cartref wedi gwrthod caniatáu i deulu Emily ofalu am ei hanghenion personol.

Mae'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol yn ddarostyngedig i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig a Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig yn ddyletswydd barhaus a dylai'r awdurdod fonitro sefyllfa Emily i sicrhau bod ei hawliau'n cael eu parchu'n briodol. Os nad yw'r awdurdod yn cymryd camau effeithiol i gywiro sefyllfa Emily nid yn unig y bydd yn mynd yn groes i'w ddyletswydd i amddiffyn Emily rhag tramgwydd yn erbyn ei hawliau gan eraill (h.y. y cartref gofal), ond bydd yr awdurdod ei hun yn torri Deddf Hawliau Dynol 1998 am ei fethiant i barchu hawliau Emily mewn trefniadau a wnaeth ar gyfer ei llety a'i gofal.

Gweithredu OPRA

Yn yr achos hwn, bydd OPRA yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i ddangos sut y dylai'r cartref gofal ymateb i sefyllfa Emily. Fodd bynnag, trwy weithredu OPRA gall y cartref gofal a'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol weld diffygion a meysydd sydd angen eu gwella o ran hawliau Emily.

- **Sefydlu hawliau:** Dylai'r cartref gofal a'r staff fod yn gwbl ymwybodol o hawliau Emily, a'r trefniadau a ddylai fod ar waith sy'n gorfodi staff i barchu'r gwarantau sylfaenol sydd wedi'u hamlinellu yn Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig a'r ECHR. Dylai staff hefyd gael eu helpu (trwy hyfforddiant, adnoddau ac ati), i sicrhau bod anghenion Emily yn cael eu diwallu'n briodol a bod ei hawliau'n cael eu parchu'n briodol.

- **Grymuso pobl hŷn:** Mae Emily yn ddibynnol ar eraill i barchu ei hurddas ac i sicrhau nad yw'n profi triniaeth ddiraddiol. Mae'r methiant i barchu ei hawliau'n ei dadrymuso ac yn ei hisraddio. Dylai'r cartref gofal ddatblygu gweithdrefnau (e.e. ar drefniadau bath a thoiled) sy'n diwallu anghenion Emily ac sydd felly'n ei galluogi i fanteisio ac i elwa ar ei hawliau.

- **Anwahaniaethu a chydraddoldeb:** Mae gwendid corfforol a dementia Emily yn aml yn gysylltiedig â henaint. Mae'r ffordd mae'n cael ei thrin yn dangos

agwedd wahaniaethol tuag at bobl hŷn. Gallai'r cartref gofal gywiro hyn trwy ganfod anghenion Emily fel person hŷn a darparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n diwallu'r anghenion hynny ac sy'n cynnal ei hawliau.

- **Cyfranogaeth:** Dylai'r cartref gofal ymdrechu i ganfod pam y mae Emily yn cynhyrfu cymaint pan fydd sôn am roi bath iddi, a hynny o bosibl trwy gyfrwng aelodau'r teulu neu'r gwasanaethau cymdeithasol. Gallai hyn arwain at awgrymiadau buddiol a allai fod yn sail i gynllun gofal effeithiol (e.e. efallai bod gan Emily ofn offer sy'n cael ei gysylltu â'r bath, fel offer codi).
- **Atebolrwydd:** Mae triniaeth Emily yn annerbyniol. Byddai trefn gwyno effeithiol wedi amlygu diffygion yn ei gofal, gan olygu y byddai'r rhain wedi eu deall ac y gellid wedyn roi sylw iddynt. Byddai hefyd yn sicrhau bod achos Emily yn cael ei dynnu i sylw pobl gyfrifol berthnasol na fyddai fel arall yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau

Nid yw'r cartref gofal wedi gweithredu mewn ffordd sy'n gydnaws ag Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig na hawliau dynol Emily, ac mae'n mynd yn groes i'w ddyletswydd o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 o ran hawliau o dan yr ECHR. Oni bai ei fod yn gweithredu newidiadau i roi sylw i'r diffygion hyn bydd yn parhau i dorri Deddf Hawliau Dynol 1998. Os na fydd yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol yn ymyrryd, naill ai trwy fynnu bod cynllun gofal priodol yn cael ei lunio, neu trwy symud Emily o'r cartref ac i leoliad mwy addas, bydd yntau hefyd yn mynd yn groes i'w sylw dyladwy o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a Deddf Hawliau Dynol 1998.